# Ysgol Godre'r Berwyn




## Llawlyfr 2025-26 Handbook

## Croeso

Annwyl Riant/Warcheidwad,

Os oes gennych blentyn yn yr ysgol am y tro cyntaf, hoffem eich croesawu fel aelod o gymuned yr ysgol, ac edrychwn ymlaen at gyd-weithio hapus a buddiol yn ystod y blynyddoedd i ddod. Os oes gennych blentyn yn yr ysgol yn barod, 'rydym yn falch o gadw'r cysylltiad â chwi. Mae'r llawlyfr hwn yn cynnig gwybodaeth am yr ysgol, ein nod, cwricwlwm a gweithgareddau.

Ein nod yw creu ysgol hapus ble mae pawb, yn blant ac oedolion, yn gwneud eu gorau bob amser, yn frwdfrydig, yn gofalu am ei gilydd ac yn awyddus i fanteisio ar bob cyfle a phrofiad i ddysgu ac i gyfoethogi eu bywyd. Mae plant sy'n hapus yn gweithio'n well gan eu bod yn teimlo'n ddiogel. Os cânt barch gan eu rhieni a'u hathrawon, maent yn dangos parch yn ôl ac maent yn fwy awyddus i blesio. Ceisiwn sicrhau ein bod bob amser yn barod i **wrando** ar blant – nid eu clywed yn unig, a byddwn pob amser yn dêg. Nid yw hyn yn syml yn golygu trin pob plentyn yn union yr un fath bob amser. Rhaid trin pob plentyn yn ôl ei anghenion a'i bersonoliaeth unigryw ei hun. Ceisiwn annog plant i fod yn aelodau cyfrifol o'r ysgol a'u cymdeithas leol ac i dyfu'n bersonau sy'n ystyriol o eraill a'u hamgylchedd. Amcanwn i roi'r addysg orau bosib i bob disgybl.

Ceisiwn barchu syniadau pob oedolyn a phlentyn o fewn yr ysgol gan ddatblygu ymhellach yr arfer o gefnogi ein gilydd ym mhob agwedd o weithgareddau'r ysgol.

Mae perthynas agos rhwng y cartref a'r ysgol yn holl bwysig, a gwyddom y cawn bob cyd-weithrediad gennych i sicrhau hyn. Os oes gennych unrhyw gwestiynau neu ymholiadau pellach ynglŷn ag unrhyw fater, mae croeso i chi gysylltu gyda'r ysgol ar unrhyw adeg – mae'r drws bob amser ar agor.

Yn gywir iawn,

Bethan Emyr Jones
Pennaeth

## Welcome

Dear Parent/Guardian,

If you have a child attending school for the first time, we would like to welcome you to the school community and look forward to a happy and constructive collaboration during the years to come. If you already have a child at the school, we are pleased to maintain this link with you. This handbook provides information about the school, its aims, curriculum and activities.

Our aim is to create a happy school where everyone, children and adults, do their best at all times, are enthusiastic and care for each other, taking advantage of every opportunity and experience to learn and to enrich their lives. Children who are happy work better because they feel secure. If they are respected by their parents and teachers, they show respect in return and are more eager to please. We also endeavour to ensure that we are prepared to **listen** to children, not just to hear them, and will also be fair at all times. This does not mean treating every child exactly the same at all times. Every child must be treated according to his/her needs and own unique personality. We aim to encourage children to become responsible members of their own school and community and to become persons who are considerate of others and of their environment. We aim to provide every pupil with the best education possible.

We attempt to respect the ideas of every adult and child within the school, further developing the practise of supporting each other in all aspects of school activities.

A close relationship between the home and school is essential, and we know that we will have your co-operation to ensure this. If you have any questions or further enquiries on any matter, you are welcome to contact the school at any time – the door is always open.

Yours sincerely,

Bethan Emyr Jones,
Head Teacher

## Ysgol Godre'r Berwyn, Heol Ffrydan, Y Bala LL23 7RU

Ffôn/*Phone*: 01678 520259
e-bost/*e-mail*: Bethan.Emyr@godrerberwyn.ysgoliongwynedd.cymru
Gwefan / *Website*: ysgolgodrerberwyn.cymru


### PENNAETH
Bethan Emyr Jones

### DIRPRWY BENNAETH
Sarah Tudor

### CADEIRYDD Y LLYWODRAETHWYR
Eifion Roberts

### DISGRIFIAD O'R YSGOL
Ysgol pob oed ddwyieithog gyd-addysgol ar gyfer dysgwyr 3 - 19 oed

**SESIWN BORE**: 9:00
**SESIWN PRYNHAWN**: 1:00 / 1:50
**CLWB BRECWAST**: 8:00 – 9:00

### POLISI DERBYN YR YSGOL
Mae'r ysgol hon yn gweithredu yn unol â pholisi derbyn Cyngor Gwynedd, sef yn llawn amser ym Medi yn dilyn eu penblwydd yn bedair oed.

### DYDDIADAU TYMHORAU 2025 - 2026
Tymor yr Hydref: 1 Medi 2025 – 19 Rhagfyr 2025
Tymor y Gwanwyn: 5 Ionawr 2026 – 27 Mawrth 2026
Tymor yr Haf: 13 Ebrill 2026 – 20 Gorffennaf 2026

### DYDDIADAU GWYLIAU 2025 – 2026
Hanner Tymor: 27 Hydref – 31 Hydref 2025
Gwyliau'r Nadolig: 22 Rhagfyr 2025 – 2 Ionawr 2026
Hanner Tymor: 16 - 20 Chwefror 2026
Gwyliau'r Pasg: 30 Mawrth – 10 Ebrill 2026
Calan Mai : 4 Mai 2026
Hanner Tymor: 25 – 29 Mai 2026
Gwyliau'r Haf: 21 Gorffennaf – 31 Awst 2026

**Bydd y dysgwyr yn dychwelyd i'r ysgol ar ddydd Mercher, 3ydd o Fedi 2025.**

### HEAD TEACHER
Bethan Emyr Jones

### DEPUTY HEAD TEACHER
Sarah Tudor

### CHAIR OF GOVERNORS
Eifion Roberts

### DESCRIPTION OF THE SCHOOL
A co-educational bilingual all-through school for 3 - 19 year olds

**MORNING SESSION**: 9:00
**AFTERNOON SESSION**: 1:00 / 1:50
**BREAKFAST CLUB**: 8.00 – 9:00

### SCHOOL'S ADMISSION POLICY
This school operates in accordance with Cyngor Gwynedd's admission policy, i.e. full time in September following their fourth birthday.

### TERM DATES 2025 - 2026
Autumn Term: 1 September 2025– 18 December 2025
Spring Term: 5 January 2026 – 27 March 2026
Summer Term: 13 April 2026 – 20 July 2026

### HOLIDAY DATES 2025 – 2026
Half Term: 27 October – 31 October 2025
Christmas Holiday: 22 December – 2 January 2026
Half Term: 16 - 20 February 2026
Easter Holiday: 30 March – 10 April 2026
May Day: 4 May 2026
Half term: 25 - 29 May 2026
Summer Holidays: 21 July – 31 August 2026

**Learners will return to school on Wednesday, 3rd September 2025.**

## Diogelu

Mae pob aelod o staff yr ysgol yn gyfrifol am ddiogelu ac amddiffyn ein dysgwyr.

Os oes pryder ynglŷn ag esgeulustra, cam-drin corfforol, emosiynol rhywiol neu ariannol mae'n ddyletswydd ar y staff, yn unol â chanllawiau 'Cadw Dysgwyr yn Ddiogel' i drafod y mater gyda person dynodedig diogelu yr ysgol.

**Person Dynodedig Diogelu a chydlynydd Plant Mewn Gofal:**
**Miss Maria Jones**
**01678 520259**

Mrs Bethan Emyr Jones yw'r Person Diogelu yn absenoldeb Miss Maria Jones.

**Llywodraethwr Dynodedig Diogelu:**
**Mrs Sian Emlyn**

Bydd pob aelod o staff yn derbyn hyfforddiant Diogelu a Radicaleiddio ym mis Medi ac mae posteri 'Protocol Diogelu' wedi eu gosod ar draws yr ysgol.
Rhaid dilyn canllawiau Cyngor Gwynedd ym mhob achos.

## Safeguarding

All members of the school staff are responsible for safeguarding and protecting our learners.

If there is concern regarding neglect, physical, emotional, sexual or financial abuse it is the responsibility of all staff, in accordance with 'Keeping Learners Safe' guidelines to discuss the matter with the school's designated safeguarding person.

**Designated Safeguarding Person and Looked After Children coordinator:**
**Miss Maria Jones**
**01678 520259**

Mrs Bethan Emyr Jones is the Safeguarding Person in the absence of Miss Maria Jones.

**Designated Safeguarding Governor:**
**Mrs Sian Emlyn**

All staff members receive Safeguarding and Radicalisation training in September and 'Safeguarding Protocol' posters are displayed throughout the school. Cyngor Gwynedd guidelines must be followed in all cases.





## Amserlen y Flwyddyn

**Oriau Ysgol – Cynradd**
Bydd yr ysgol yn cychwyn am 9:00 ac yn gorffen am 3:15. Bydd angen sicrhau bod dysgwyr yn cyrraedd yr ysgol yn brydlon am 8:50.

**Cychwyn Blwyddyn Derbyn**
Yn ystod tymor yr Haf, bydd cyfle i rieni ymweld â'r ysgol a chael cyfle i gyfarfod y staff. Bydd cyfle i ddisgyblion dreulio diwrnod yn yr ysgol yn ystod mis Gorffennaf.

**Oriau Ysgol – Uwchradd.**

| | |
|---|---|
| 8:55- 9:20 | Cofrestru a Gwasanaeth |
| 9:20- 10:10 | Gwers 1 |
| 10:10- 11:00 | Gwers 2 |
| 11:00- 11:20 | Egwyl |
| 11:20- 12:10 | Gwers 3 |
| 12:10- 1:00 | Gwers 4 |
| 1.00-1.50 | Cinio |
| 1:50- 2:40 | Gwers 5 |
| 2:40- 3:30 | Gwers 6 |

**Trosglwyddo o'r Cynradd i'r Uwchradd.**
Byddwn yn cynnal noson agored i ddisgyblion blwyddyn 5 a 6 y dalgylch a'u rhieni ym mis Hydref. Ceir cyflwyniadau gan staff a dysgwyr yn ystod y noson, a chyfle i fynd o amgylch yr ysgol i ymweld â'r dosbarthiadau

Mae gennym gynllun pontio dalgylchol sydd yn cynnig cyfleoedd i ddysgwyr blwyddyn 6 y dalgylch dreulio cyfnod o amser yn yr ysgol o leiaf unwaith y tymor. Mae hwn yn gyfle gwych i ddod i adnabod y staff a'r safle, ac i ddod i adnabod dysgwyr eraill y dalgylch.

## Annual Timetable

**School Hours – Primary**
School starts at 9:00 and finishes at 3:15. It will be necessary to ensure that learners arrive at school punctually at 8:50.

**Start of Reception Year**
During the Summer term, parents will have the opportunity to visit the school and meet the staff. Pupils will have the opportunity to spend a day in the school in July.

**School hours – Secondary.**

| | |
|---|---|
| 8:55- 9:20 | Registration and Assembly |
| 9:20- 10:10 | Lesson 1 |
| 10:10- 11:00 | Lesson 2 |
| 11:00- 11:20 | Break |
| 11:20- 12:10 | Lesson 3 |
| 12:10- 1:00 | Lesson 4 |
| 1.00-1.50 | Lunch |
| 1:50- 2:40 | Lesson 5 |
| 2:40- 3:30 | Lesson 6 |

**Transfer from Primary to Secondary.**
We will be holding an open evening for year 5 and 6 pupils and their parents from the school's catchment area in October. There will be presentations by staff and learners during the evening, and an opportunity to tour the school to visit the classes.

We have a transition plan which offers year 6 pupils in the catchment area opportunities to spend a period of time at school at least once a term. This is a great opportunity to get to know the staff and our site, as well as meeting learners in the catchment area.

## Ffês 1

Yn Ffês 1 bydd ein dysgwyr ifanc yn cychwyn ar eu taith addysgol. Mae'r ffês cyntaf yma yn cynnwys disgyblion y dosbarth meithrin hyd at flwyddyn 4 a'n blaenoriaeth ni yw sicrhau fod pob un ohonynt yn teimlo'n ddiogel ac yn hapus yn yr ysgol.

Ein nôd yw sicrhau fod pob disgybl yn cael cychwyn cadarn, nid yn unig o ran datblygu eu sgiliau llythrennedd a rhifedd ond hefyd wrth feithrin sgiliau a gwerthoedd holl bwysig iddynt i'r dyfodol megis cydweithio, dyfalbarhau, holi a chwestiynu, datblygu chwilfrydedd a bod yn barod i fentro. Byddwn yn rhoi pwyslais ar feddylfryd o dwf o'r cychwyn cyntaf gan feithrin y disgyblion i gredu mai gwaith caled ac ymdrech sydd yn arwain at lwyddiant, ac i sylweddoli fod gwneud camgymeriadau yn rhan bwysig o ddysgu.

O fewn ein themâu tymhorol byddwn yn rhoi cyfleoedd a phrofiadau amrywiol i'r disgyblion gan gynnwys dysgu yn yr awyr agored a chreu cysylltiadau cryf â'r gymuned. Byddwn yn rhoi cyfleoedd amrywiol i'r disgyblion er mwyn datblygu eu hyder megis cyrsiau preswyl, gwahodd ymwelwyr i'r dosbarthiadau ag ymweld â llefydd diddorol, cefnogi eisteddfodau a gweithgareddau lleol a chymryd rhan mewn gweithgareddau chwaraeon o bob math.

Mrs Sara Morris
Pennaeth Ffês 1

## Phase 1

In Phase 1 our young learners will embark on their educational journey. This first phase includes nursery class learners up to year 4, and our priority is to ensure that they all feel safe and happy at school.

Our aim is to ensure that all pupils have a flying start, not only in developing their literacy and numeracy skills but also in developing vital skills and values for the future such as working together, persevering, questioning, developing curiosity and being ready to take risks. We will emphasize a growth mindset from the outset and nurture learners to believe that hard work and effort is what leads to success, and to realise that making mistakes is an important part of learning.

Within our termly themes we will provide a variety of opportunities and experiences including learning outdoors and building strong links with the community. We will provide learners with various opportunities to develop their confidence such as residential courses, inviting visitors to classes and visiting places of interest, supporting eisteddfodau and local activities and participating in all kinds of sporting activities.

Mrs Sara Morris
Head of Phase 1





## Ffês 2

Ein nod yw parhau i ddatblygu'r sgiliau a'r gwerthoedd sydd wedi eu gwreiddio yn Ffês 1 – meddylfryd o dŵf, annibyniaeth a hyder i fentro yn bennaf. Bydd hyn yn ei dro yn annog dysgwyr i fod yn atebol am eu dysgu eu hunain ac i anelu am ragoriaeth.

Rydym yn parhau i ddilyn yr un egwyddorion a Ffês 1 drwy ddysgu ac addysgu yn drawsgwriciwlaidd a chynnig gweithgareddau awyr agored i ddatblygu sgiliau penodol.

Mae'r ethos o gydweithio agos rhwng staff yr ysgol yn sicrhau ein bod yn gwneud y defnydd gorau o arbenigeddau unigolion i ddarparu'r addysg orau un ar gyfer y dysgwyr.

Ein nôd o fewn y ffês yw sicrhau trosglwyddiad llyfn o'r cynradd i'r uwchradd i holl ddisgyblion y dalgylch drwy rannu arferion da, adnoddau arbenigol a chynnig profiadau a chyfleoedd gwerthfawr i'r holl ddysgwyr.

Ms Maria Jones
Pennaeth Ffês 2

## Phase 2

Our aim is to continue to develop the skills and values embedded in Phase 1 - growth mindset, independence and confidence to venture. This in turn will encourage learners to be accountable for their own learning and to strive for excellence.

We continue to follow the same principles as Phase 1 through cross-curricular learning and teaching, and planning outdoor activities to develop specific skills.

The ethos of close collaboration between school staff ensures that we make the best use of individuals' expertise to provide the very best education for the learners.

Our aim within the phase is to ensure a smooth transition from primary to secondary for all pupils in the catchment area by sharing good practice, specialist resources and offering valuable experiences and opportunities for all learners.

Ms Maria Jones
Head of Phase 1



## Ffês 3

Croeso i Ffês 3 Ysgol Godre'r Berwyn, sef Blwyddyn 9, 10 ac 11.

Hwn yw cyfnod olaf y daith o addysg statudol. Y cyfnod ble mae'r holl sylfeini; y sgiliau academaidd, sgiliau cymdeithasol a phrofiadau ers cychwyn taith yn y dosbarth Derbyn yn dod ynghyd i wobrwyo'n bobl ifanc gyda set o gymwysterau hir-dymor.

Mae cyfrifoldeb arnom i gyd - yr ysgol, y disgyblion, rhieni, teulu estynedig a ffrindiau i sicrhau'r cyfleoedd, amgylchedd ac anogaeth orau bosib er mwyn i bawb gyrraedd eu llawn botensial.

Ein nod yn Ffês 3 yw sicrhau fod pob disgybl yn gorffen y cyfnod gyda gwên ar y wyneb a balchder yn y galon. Gyda'n gilydd fe wnawn lwyddo.

Mrs Amy Jones
Pennaeth Ffês 3

## Phase 3

Welcome to Phase 3 of Ysgol Godre´r Berwyn, namely Years 9, 10 and 11.

This is the final phase of the journey of statutory education. The phase where all the foundations; the academic skills, social skills and experiences since starting the journey in Reception come together to reward our young people with a set of lifelong qualifications.

We all have a responsibility - the school, the pupils, parents, extended family and friends to ensure the best possible opportunities, environment and encouragement for everyone to reach their full potential.

Our aim in Phase 3 is to ensure that all pupils finish the phase with a smile on the face and pride in the heart. Together we will succeed.

Mrs Amy Jones
Head of Phase 3





## Chwechedd Dosbarth

Ni ddylai unrhyw berson ifanc benderfynu ar ddewis llwybr Addysg Bellach ar chwarae bach, yn arbennig os yw hynny'n golygu dod yn aelod o chweched dosbarth mewn ysgol. Yma yn Ysgol Godre'r Berwyn, credwn yn gryf fod y berthynas rhwng dysgwyr blynyddoedd 12 ac 13 â'r ysgol yn un ble mae pawb ar eu hennill.

Drwy fod yn aelod o'r chweched dosbarth yma, bydd unigolion yn dod yn rhan o gymdeithas ddi-hafal ynddi ei hun, yn ogystal â'r ysgol ehangach. Byddant hefyd yn derbyn nid yn unig darpariaeth addysgol arbennig, ond y gefnogaeth gan athrawon a staff ategol i ymdopi â'r naid o TGAU i heriau cyrsiau Uwch Gyfrannol. Rhoddir gwybodaeth ac arweiniad amserol pan ddaw i benderfynu ar eu camau nesaf wedi gadael yr ysgol, boed yn ddewis cwrs prifysgol, prentisiaeth neu swydd.

Gwelwn fod gan ddysgwyr blynyddoedd 12 a 13 ran allweddol yn lledaenu ethos yr ysgol gan arddangos agwedd iach at addysg, y parch disgwyliedig at ddysgwyr a staff ac ymrwymiad i gymdeithas. Mae dwy flynedd gyffrous, brysur yn llawn profiadau newydd yn eu hwynebu ac yn gyfnod fwy arbennig fyth gan mai aelodau o Chweched Dosbarth Ysgol Godre'r Berwyn ydynt.

Ms Delyth Humphreys
Pennaeth 6ed Dosbarth

## Sixth Form

No young person should make a decision about Further Education without due consideration, especially if that means becoming a member of a sixth form. Here at Ysgol Godre'r Berwyn, we firmly believe that the relationship between years 12 and 13 and the school is beneficial to all.

By becoming a member of the sixth form, individuals become part of a cohesive and unique society that is integral to the wider school community. Not only will they receive support from staff and teachers to bridge the gap between GCSE and Advanced Subsidery courses, they will also receive commendable education. Timely information and guidance is provided when it comes to deciding the next steps, whether that be university, apprenticeship or vocational courses.

We believe that learners in years 12 and 13 play a key role in ensuring the school's ethos is maintained through demonstrating a healthy attitude and respect for education, staff and other learners, likewise a commitment to society. They are facing two exciting, busy years full of new experiences which can only be consolidated further at Ysgol Godre'r Berwyn's sixth form.

Ms Delyth Humphreys
Head of 6th Form



## Gwisg Ysgol

Rydym yn falch iawn o’n gwisg ysgol a disgwylir i bob dysgwr ddilyn y polisi gwisg ysgol. Gofynnwn bod rhieni/gofalwyr yn ymgymryd â’r cyfrifoldeb o sicrhau bod eu plentyn yn cyrraedd yr ysgol yn y wisg gywir yn ddyddiol.

Lluniwyd y logo gan Mali Wyn Allman, un o gyn-ddisgyblion yr ysgol.

Gellir archebu gwisg ysgol gan Brodwaith: https://www.brodwaith.co.uk
Gofynnwn yn garedig i chi roi enw eich plentyn yn glir ar bob dilledyn.

**Y Cyfnod Sylfaen** - darperir bagiau darllen i bob dysgwr yn rhad ac am ddim ar ddechrau’r dosbarth derbyn. Disgwylir i bawb ddod â phâr o esgidiau glaw i’w cadw yn yr ysgol ar gychwyn bob blwyddyn addysgol.
**Dillad Addysg Gorfforol** - gofynnir i bob rhiant/ warchodwr ddarparu crys-T, siorts a trainers ar gyfer gwersi Addysg Gorfforol, neu ddillad chwaraeon cynnes ar gyfer gwersi tu allan.
**Gemwaith** – am resymau iechyd a diogelwch ni chaniateir gemwaith ar yr wyneb - clustdlysau ‘studs’ yn unig a ganiateir.


## School Uniform

We are very proud of our school uniform, and expect all pupils to follow the school uniform policy. We ask that all parents/carers ensure that pupils arrive at school in the correct uniform daily.

The logo was designed by Mali Wyn Allman, a former pupil at the school.

Your child’s school uniform can be ordered from Brodwaith: https://www.brodwaith.co.uk
We kindly ask that all clothing are labelled clearly with their names.

**Foundation Phase** - free reading bags are provided for all pupils as they start reception, and they are expected to a bring a pair of wellies to keep in school at the start of each educational year.
**PE Clothing** - All parents / guardians are asked to provide T-shirt, shorts and trainers for PE lessons or warm sports clothing for outdoor lessons.
**Jewellery** - for health and safety reasons, facial jewellery is not permitted - only 'stud' earrings are allowed in the ears.



## Y Cwricwlwm

Mae gan holl ddysgwyr Ysgol Godre'r Berwyn yr hawl i gael mynediad at gwricwlwm eang a chytbwys sy'n...

**"...hyrwyddo eu datblygiad ysbrydol, moesol, diwylliannol, meddyliol a chorfforol ac yn paratoi ar gyfer cyfleoedd, cyfrifoldebau a phrofiadau bywyd oedolion."**

(Adran 351 Deddf Addysg 1996)

Bydd holl ddysgwyr cynradd a blwyddyn 7 yn dysgu drwy'r cwricwlwm newydd o fis Medi 2022 ymlaen. Prif nod y cwricwlwm newydd yw datblygu sgiliau y dysgwyr, a hynny drwy gyfuniad o brofiadau a gweithgareddau.

Bydd y cynllunio yn seiliedig ar y pedwar diben, sef datblygu dysgwyr i fod yn:

- ddysgwyr uchelgeisiol a galluog
- mentrus a chreadigol
- ddinasyddion egwyddorol a gwybodus
- iach a hyderus

**<u>Meysydd Dysgu a Phrofiad</u>**

Yn ogystal â **dysgu sgiliau llythrennedd, rhifedd a digidol**, bydd chwe maes dysgu a phrofiad. Bydd yr holl weithgareddau yn cael eu cynllunio i ddatblygu agwedau o'r meysydd hyn.

**Ieithoedd, llythrennedd a Chyfathrebu**

Dysgu am ieithoedd.
Deall a defnyddio'r Gymraeg, y Saesneg a ieithoedd rhyngwladol eraill.
Deall a chreu llenyddiaeth.

**Mathemateg a Rhifedd**

Deall rhifau.
Deall rhifau a defnyddio symbolau mewn mathemateg.
Archwilio siapiau a mesuriadau.
Dysgu am ystadegau a thebygolrwydd.

**Gwyddoniaeth a Thechnoleg**

Deall pwysigrwydd gwyddoniaeth a thechnoleg.
Dysgu am ddylunio a pheirianneg, pethau byw, sylwedd, grymoedd ac egni a sut y mae cyfrifiaduron yn gweithio.

## The Curriculum

All learners at Ysgol Godre'r Berwyn are entitled to a broad and balanced curriculum which...

**"...promotes their spiritual, cultural, mental and physical development and prepares them for the opportunities, resposibilities and experiences of adult life."**

(Section 351 Education Ant 1996)

All primary and year 7 pupils will follow the new curriculum from September 2022. The main aim of the new curriculum is to develop the learners' skills through a combination of experiences and activities.

The planning will be based on the four purposes, which are to develop learners to be:

- Ambitious and capable learners.
- Enterprising and creative.
- Principled and informed citizens
- Healthy and confident

**<u>Areas of Learning and Experience</u>**

As well as **teaching literacy and numeracy and digital skills**, there will be six areas of learning and experience. All the activities will be planned to develop aspects of these areas.

**Languages, literacy and Communication**

Learn about languages.
Understand and use Welsh, English and other international languages.
Understanding and creating literature.

**Mathematics and Numeracy**

Understand numbers.
Understand numbers and use symbols in mathematics.
Explore shapes and measurements.
Learn about statistics and probability.

**Science and Technology**

Understand the importance of science and technology.
Learn about design and engineering, living things, substance, forces and energy and how computers work.

**Dyniaethau**
Archwilio hanes, daearyddiaeth, gwleidyddiaeth, crefyddau, busnesau, diwylliannau a chymdeithasau yng Nghymru ac o amgylch y byd.

**Celfyddydau Mynegiannol**
Archwilio'r celfyddydau fel eich bod chi'n dysgu defnyddio'ch gwybodaeth, eich sgiliau a'ch dychymyg i greu.
Dysgu gwerthfawrogi'r celfyddydau a myfyrio ar eich gwaith eich hun.

**Iechyd a lles**
Dysgu am fwyta'n iach a pherthnasoedd iach.
Dysgu gwneud penderfyniadau da a delio â dylanwadau.
Dysgu sut i ofalu am eich lles emosiynol.

## Cwricwlwm CA4 a CA5

Bydd y cyrsiau craidd statudol yn parhau i gael eu cynnig yn CA4 ynghyd â thri pwnc dewis. Bydd y Fagloriaeth Gymraeg yn cael ei gyflwyno o'r newydd. Ategir yr arlwy sy'n cael ei gynnig yn CA3 drwy gyrsiau newydd megis Busnes, a chyrsiau coleg mewn partneriaeth â rhwydwaith 14-16 Gwynedd a Choleg Meirion-Dwyfor.

Cynigir gyrsiau partneriaeth drwy e-sgol mewn cyrsiau lefel A.

## Profiadau Ehangach

### Beth arall sydd gan Ysgol Godre'r Berwyn i'w gynnig i'm plentyn?

Mae ein dysgwyr yn elwa'n arw o brofiadau a gweithgareddau y tu allan i'r ystafell ddosbarth. Mae hyn yn cynnwys ymweliadau addysgol, croesawu a holi siaradwyr gwâdd, perfformiadau cyhoeddus, corau a phartion. Cynhelir eisteddfod ysgol yn flynyddol, ble fydd y dysgwyr uwchradd yn cael eu rhannu yn dri tîm – Dyfrdwy, Tryweryn ac Aran. Mae gennym berthynas agos gyda Gwasanaeth Cerdd Gwynedd a Môn ble mae cyfleoedd i ddysgwyr ddatblygu eu sgiliau cerddorol drwy wersi canu neu offerynnol.
Cynhelir nifer o weithgareddau STEM yn ystod y flwyddyn. Mae'r profiadau hyn yn gyfleoedd gwych i gymhwyso a datblygu sgiliau newydd, cyfoethogi profiadau'r dysgwyr a chreu cyswllt â byd gwaith.

**The Humanities**
Exploring history, geography, politics, religions, businesses, cultures and societies in Wales and around the world.

**Expressive Arts**
Explore the arts so you learn to use your knowledge, skills and imagination to create.
Learn to appreciate the arts and reflect on your own work.

**Health and well-being**
Learn about healthy eating and healthy relationships.
Learn to make good decisions and deal with influences.
Learn how to look after your emotional wellbeing.

## KS4 and KS5 Curriculum

Statutory core courses will continue to be offered at KS4 in addition to three chosen subjects. The Welsh Baccalaureate will be introduced, and new courses such as Business will be offered along with college courses in partnership with Gwynedd 14-16 network and Coleg Meirion Dwyfor.

Partnersip courses are also offered through e-sgol for A-level courses.

## Wider Experiences

### What else does Ysgol Godre'r Berwyn have to offer my child?

Our learners benefit greatly from experiences and activities outside the classroom. This includes educational visits, welcoming and questioning guest speakers, public performances, choirs and parties. A school eisteddfod is held annually, where the secondary learners are divided into three teams - Dyfrdwy, Tryweryn and Aran. We have a close relationship with the Gwynedd and Anglesey Music Service where there are opportunities for learners to develop their musical skills through singing or instrumental lessons.
A number of STEM activities are held during the year. These experiences are great opportunities to apply and develop new skills, enrich the learners' experiences and create contacts with the world of work.

## Addysg Grefyddol ac Addoli ar y Cyd

Mae gwasanaethau ffesys yn cael eu cynnal yn wythnosol ble ceir myfyrdod a munud i feddwl. Bydd munud i feddwl hefyd yn digwydd yn y cyfnodau cofrestru.

Cyflwynir Addysg Grefyddol anenwadol fel rhan o'r maes llafur yn y tri ffês a'r 6ed dosbarth. Gofynnir i'r rhieni sydd am ddefnyddio eu hawliau, dan Ddeddf 1988, i dynnu eu plentyn o'r gwasanaethau neu o'r gwersi Addysg Grefyddol, gysylltu â'r Pennaeth drwy llythyr.

Yn y gwersi, bydd addysg grefyddol yn meithrin diddordeb a rhyfeddod dysgwyr o'r byd a'r profiad dynol. Mae hyn yn eu hysgogi i ofyn ac ymchwilio cwestiynau dwfn sy'n ymwneud â'u profiadau personol, crefydd a bywyd yn gyffredinol. Trwy weithgareddau ysgogol ac ymarferol ac archwilio crefydd yn eu cymdogaeth yng Nghymru, ym Mhrydain ac yn y byd ehangach, bydd y dysgwyr yn datblygu sgiliau ac yn casglu gwybodaeth a fydd yn eu cynorthwyo i feddwl yn greadigol am gwestiynau crefyddol a moesol sylfaenol, a rhannu syniadau trwy drafod. Bydd gwybodaeth am grefydd(au) a chydnabod pwysigrwydd crefydd ym mywydau pobl yn gymorth i ddatblygu goddefgarwch a pharch, a dylai feithrin agweddau cyfrifol mewn cymdeithas leol a byd-eang.

Trwy gyfranogi'n weithredol bydd y dysgwyr yn archwilio dimensiynau ysbrydol a moesol i'w cynorthwyo wrth iddynt chwilio am ystyr a phwrpas. Bydd y dysgwyr yn mynegi eu teimladau a'u barn eu hunain, adnabod sut y gall eu gweithrediadau effeithio ar eraill, cydnabod bod safbwyntiau pobl eraill yn wahanol i'w safbwynt nhw, a myfyrio ar eu persbectifau eu hunain ar fywyd a'u haddasu fel y bo'n briodol.

## Religious Education and Assemblies

Phase assemblies are held weekly where we introduce time to meditate and reflect. This also happens during the registration periods.

Non-denominational Religious Education is introduced as part of the syllabus in every phase and the 6th form. Parents who wish to exercise their rights, under the 1988 Act, to withdraw their child from religious services or lessons, are asked to contact the Headteacher by letter.

In lessons, religious education will foster learners' interest and wonder of the world and the human experience. This motivates them to ask and explore deep questions relating to their personal experiences, religion and life in general. Through stimulating and practical activities and exploring religion in their locality in Wales, Britain and the wider world, learners will develop skills and gather information that will help them think creatively about fundamental religious and moral questions, and share ideas through discussion. Knowledge of religion(s) and recognition of the importance of religion in people's lives will help to develop tolerance and respect, and should foster responsible attitudes in local and global society.

Through active participation learners will explore spiritual and moral dimensions to assist them in their search for meaning and purpose. Learners express their own feelings and opinions, identify how their actions may affect others, recognize that other people's views are different from their own, and reflect on their own perspectives on life, and adjust as appropriate.

## Addysg Cydberthnasedd a Rhywioldeb

Mae gan addysg cydberthynas a rhywioldeb rôl gadarnhaol a grymusol i'w chwarae yn addysg dysgwyr ac mae'n hanfodol wrth eu cefnogi i gyflawni'r pedwar diben fel rhan o *ddull gweithredu ysgol gyfan.* Mae helpu dysgwyr i ffurfio a chynnal ystod o gydberthnasau, sydd i gyd yn seiliedig ar ymddiriedaeth a pharch ar y ddwy ochr, yn greiddiol i addysg cydberthynas a rhywioldeb. Mae'r cydberthnasau hyn yn hollbwysig er mwyn datblygu lles emosiynol, gwydnwch ac empathi. Mae dealltwriaeth o rywioldeb gyda phwyslais ar hawliau, iechyd, cydraddoldeb a *thegwch* yn grymuso dysgwyr i ddeall eu hunain, cymryd cyfrifoldeb am eu penderfyniadau a'u hymddygiadau eu hunain a ffurfio cydberthnasau sy'n gwbl gynhwysol, gan adlewyrchu amrywiaeth a hyrwyddo parch.

Mae'r Côd ACRh, Llywodraeth Cymru 2022 yn cynnwys y gofynion mandadol. Mae'r addysgu a dysgu o fewn ein rhaglen ACRh ysgol gyfan yn cwmpasu'r elfennau mandadol a amlinellir o fewn y Côd.

Mae'r ysgol felly wedi cynllunio a datblygu rhaglen addysgu a dysgu ACRh ysgol gyfan gynhwysfawr, cynhwysol, addas i ddatblygiad sydd yn cydymffurfio gyda'r Côd.

Mae ein hysgol yn cefnogi dysgwyr i ddatblygu gwybodaeth, sgiliau a gwerthoedd i ddeall sut mae cydberthnasau a rhywioldeb yn siapio ein bywyd a bywydau eraill. Bydd ein dysgwyr yn cael eu harfogi a'u grymuso i ofyn am gefnogaeth ar faterion sy'n gysylltiedig ag ACRh ac i eirioli ar ran eu hunain ac eraill.

Bydd yr ysgol yn sicrhau bod ACRh wedi ei osod yng ngwerthoedd, hawliau a fframwaith moesol yr ysgol e.e. wrth ddangos parch i'r holl ddysgwyr, staff a'r gymuned ehangach, wrth ddathlu gwahaniaethau, adeiladu perthnasoedd iach a chynhwysol o amrywiaeth rhywiol.

## Relationships and Sexuality Education


RSE has a positive and empowering role in learners' education and plays a vital role in supporting learners to form and maintain a range of relationships, all based on mutual trust and respect which is the foundation of RSE. These relationships are critical to the development of emotional well-being, resilience and empathy. An understanding of sexuality with an emphasis on rights, health, equality and equity empowers learners to understand themselves, take responsibility for their own decisions and behaviours, and form relationships that are fully inclusive, reflecting diversity and promoting respect.

The Welsh Government RSE Code 2022 contains the mandatory requirements. The teaching and learning within our whole school RSE programme encompass the mandatory elements outlined within the Code.

Our school has therefore planned and developed a comprehensive, inclusive, developmentally appropriate whole school teaching and learning programme for RSE which conforms with the Code.

Our RSE will support learners to develop the knowledge, skills and values to understand how relationships and sexuality shape their own lives and the lives of others. Learners will be equipped and empowered to seek support on issues relating to RSE and to advocate for themselves and others.

The school will ensure that RSE is embedded in the school's values, rights and moral framework e.g. by showing respect for all learners, staff and the wider community, by celebrating differences, building healthy relationships and inclusion of sexual diversity.



## Arferion Dysgu ac Ymddygiad

Mae cwrteisi, parch, moesgarwch, ystyriaeth o eraill a hunan-ddisgyblaeth yn agweddau pwysig o addysg plentyn ac nid ydym yn derbyn unrhyw fath o fwlio. Ble bo cam-ymddygiad yn digwydd, mae gan athro/athrawes (yn rhinwedd ei swydd 'in loco parentis' ) gyfrifoldeb i gymryd y camau priodol, fel rhiant cyfrifol.

Gydag unrhyw achos o gam-ymddwyn bydd yr athro yn ymwneud gyntaf, yna'r Pennaeth Ffês a’r Pennaeth yn olaf. Byddwn yn cysylltu â'r rhieni os oes angen. O sicrhau fod plant yn gwybod y math o ymddygiad a ddisgwylir ganddynt, credwn ein bod yn medru creu ethos hapus a diogel i blant a staff, a thrwy hynny fedru cynnig gwell safon o addysg.

Mae gan Ysgol Godre’r Berwyn ddisgwyliadau uchel iawn o ran arferion dysgu ac ymddygiad da. Disgwylir i bob dysgwr ymddwyn yn briodol a gweithio’n galed. Mae parch yn un o brif werthoedd yr ysgol – bydd staff yn trin pob dysgwr gyda pharch a disgwylir yr un parch yn ôl. Mae trefn disgyblu cadarn a chyson drwy’r ysgol a’r Arferion Dysgu yn cael eu harddangos ym mhob dosbarth.

Ni chaniateir ffonau symudol o fewn yr ysgol. Os oes disgyblion angen dod a’u ffonau ar gyfer eu defnyddio ar ôl oriau’r ysgol rhaid eu cadw yn eu bagiau wedi ddiffodd.


## Learning and Behaviour Practices

Courtesy, respect, politeness, consideration of others and self-discipline are important aspects of a child’s education, and we do not tolerate any form of bullying. Where misbehaviour occurs, a teacher (as a result of being 'in loco parentis') has responsibility to take appropriate steps, as a responsible parent.

With any case of misbehaviour, the teacher will be involved first, then the Head of Phase and lastly the Headteacher. If necessary we will contact the parents. By ensuring that the children are aware of the type of behaviour expected of them, we believe that we are able to create a happy and safe ethos for children and staff, and in doing so are able to offer a better standard of education.

Ysgol Godre´r Berwyn has very high expectations in terms of good learning practices and behaviour. All pupils are expected to behave appropriately and work hard. Respect is one of the school's main values. Staff treat learners with respect and expect respect in return.
There is a strong and consistent disciplinary procedure throughout the school and the Habits of Work are displayed in every class.

Mobile phones are not allowed within the school. If pupils need to bring their phones for use after school hours they must be kept securely in their bags, switched off.



# ARFERION DYSGU

## Gweithio'n Galed

Rwy'n cyrraedd pob dosbarth yn barod ac ar amser.
Rwy'n cymryd rhan yn llawn a meddylgar yn y dosbarth.
Rwy'n cwblhau'r holl waith yn amserol hyd eithaf fy ngallu.

## Bod yn Ddoeth

Rwy'n cymryd cyfrifoldeb am fy nysgu drwy ofyn cwestiynau a gofyn am gymorth pan fo angen.
Rwy'n asesu fy ngwaith yn seiliedig ar feini prawf penodol.
Rwy'n croesawu adborth ac yn diwygio fy ngwaith.

## Bod yn Annwyl

Rwy'n cyfathrebu'n gwrtais a charedig.
Rwy'n gweithio ar y cyd ag eraill.
Rwy'n gofalu am adnoddau a deunyddiau ac yn gweithredu fel aelod cyfrifol o'r gymuned.

# GWERTHOEDD PERSONOL

**Parch**
**Caredigrwydd**
**Gonestrwydd**
**Tegwch**
**Gofal**
**Urddas**

# Habits of Work

## Work Hard

I arrive for each class on time and prepared.
I participate fully and mindfully in class.
I complete all work in a timely manner to the best of my ability.

## Get Smart

I take responsibility for my learning by asking questions and seeking help when needed.
I assess my work based on established criteria.
I welcome feedback and revise my work.

## Be Kind

I communicate politely and kindly.
I work cooperatively with others.
I take care of resources and materials and act as a steward of our community.

# Character Values

**Respect**
**Kindness**
**Honesty**
**Fairness**
**Care**
**Dignity**

## Iechyd a Diogelwch

Mae Iechyd a Diogelwch yn elfen holl bwysig yn Ysgol Godre'r Berwyn ac mae ein trefniadau gofal sy'n ymwneud â lles ein disgyblion yn flaenoriaeth.

Cymerir pob gofal o bob plentyn tra byddant yn yr ysgol. Os bydd plentyn yn sâl byddwn yn cysylltu'n syth â'r rhieni. Cedwir cofnodion llawn o ddamweiniau, ac os bydd unrhyw niwed i'r pen byddwn yn cysylltu â'r rhieni/ gofalwyr ar unwaith. Mae pump aelod enwebedig o'r staff wedi cwblhau hyfforddiant Cymorth Cyntaf llawn a thri wedi derbyn hyfforddiant elfennol.

Trefnir ymarferion tân ysgol gyfan unwaith y tymor, ac ymarfer cloi mewn argyfwng unwaith y flwyddyn.

**Trefniadau ar Gyfer Ymwelwyr** - Rhaid i bob ymwelydd ddod i mewn trwy brif fynedfa'r ysgol ac arwyddo wrth ddod i mewn ger y dderbynfa. Bydd staff y dderbynfa yn sicrhau bod unrhyw ymwelwyr yn cael eu hebrwng i'r man cyfarfod priodol. Disgwylir i ymwelwyr wisgo cerdyn adnabod ymwelwyr, ac arwyddo allan pan fyddant yn gadael yr adeilad.

**Ymweld â'r ysgol** – Mae croeso i rieni/ warcheidwaid ymweld â'r ysgol ond gofynnwn yn garedig i chi ffonio ymlaen llaw er mwyn gallu trefnu i chi gyfarfod gyda aelodau perthnasol o staff yr ysgol.

### Moddion

Mewn achosion 'tymor byr' gall yr athrawon roi moddion os yw'r rhieni wedi arwyddo ffurflen bwrpasol ymlaen llaw. Yn y tymor hir, gallwn hefyd wneud ar gais ysgrifenedig gan feddyg.
Yn arferol, ni fydd plentyn sydd angen moddion yn ddigon iach i fod yn yr ysgol.
Mae angen cadw plentyn adref am 48 awr os yw wedi bod yn taflu i fyny neu ddolur rhydd.

Ni roddir unrhyw foddion i blentyn heb ffurflen bwrpasol neu lythyr gan feddyg.

## Health and Safety

Health and Safety is a vital element at Ysgol Godre´r Berwyn and our care arrangements regarding the welfare of our pupils are a priority.

Every care is taken of each child while they are in school. If a child is ill we will contact the parents immediately. Full records are kept of accidents, and if there is any head injury we will contact the parents / carers immediately. Five nominated members of staff have completed full First Aid training and three members with basic training.

Whole school fire drills are organized once a term, and lockdown drills once a year.

**Arrangements for Visitors** - All visitors must enter through the main entrance of the school and sign in at reception. Reception staff will ensure that any visitors are escorted to the relevant meeting point. Visitors are expected to wear a visitor ID card, and sign out when they leave the building.

**Visiting the school** - Parents / guardians are welcome to visit the school but we kindly ask you to telephone in advance so that you can arrange to meet with relevant members of school staff.

### Medicine

In 'short-term' cases teachers can administer medication if parents have signed the appropriate form beforehand. In the long term, we can also do so on written request from a doctor.

Usually, a child who needs medicine will not be healthy enough to be in school.
A child needs to be kept at home for 48 hours after vomitting or a bout of diarrhoea.

No medicine is given to a child without a bespoke form or letter from a doctor.

## Yr Ysgol a’r Gymuned

Mae’r ysgol yn chwarae rhan amlwg ym mywyd y gymuned, a’r gymuned yn chwarae rhan amlwg ym mywyd yr ysgol. Dylai’r ysgol a’r gymuned gyd-ymdreiddio, dylid gwneud yn fawr o’r gynulleidfa parod a gynigir gan y gymuned leol, a dylai’r plant weld fod iddynt hwythau eu lle yn y gymdeithas gyflawn.
Rydym yn credu bod yr ysgol yn rhan annatod o’r gymuned ac yn helpu’r plant i feithrin parch at ei thraddodiadau a’i phobl.
Byddwn yn parhau i ddatblygu’r berthynas glos a chartrefol sy’n bodoli mewn cymdeithas wledig a manteisio ar y cyfle i oedrannau cymysg gyd-weithio â’i gilydd.

Mae holl rieni a gwarchodwyr plant yr ysgol yn cael eu cyfri'n aelodau o ‘Gyfeillion yr Ysgol’ heb unrhyw dâl aelodaeth! Yn yr un modd, unrhyw 'gyfaill' sy'n dangos diddordeb yn yr ysgol a'i gweithgareddau. Y nod yw codi arian i brynu adnoddau fydd yn datblygu, atgyfnerthu a hyrwyddo addysg y plant, a hynny drwy gynnal nosweithiau cymdeithasol, a dyfnhau'r berthynas sy’n bodoli rhwng staff, rhieni a phawb arall sy'n ymwneud â'r ysgol

### Theatr Derek Williams

Sefydlwyd Theatr Derek Williams pan agorwyd yr ysgol newydd yn 2019, sef theatr sydd yn cynnig adloniant i drigolion yr ardal a thu hwnt. Rydym yn falch o gael manteisio ar groesawu grwpiau i gynnal gweithdai a dramau ar gyfer ein dysgwyr ac mae’r theatr hefyd yn gyfle gwych i’r disgyblion berfformio eu hunain.

Yn ystod y flwyddyn mae unigolion, partion a chorau’r ysgol yn perfformio i wahanol gymdeithasau lleol, ac rydym yn cefnogi Eisteddfod yr Urdd yn flynyddol.

## The School and the Community

The school plays a prominent part in the life of the community, and the community plays a prominent part in the life of the school. The school should make the most of the ready audience provided by the community, and the children too should realise that there is a place for them in society as a whole.
We believe that the school is an integral part of the community and helps children to nurture a respect of its traditions and people.
We will continue to develop the close-knit and homely relationship that exists in a rural society and take advantage of the opportunity for mixed age-groups to work together.

All parents and guardinas are regarded as members of the ‘Friends of the School’ where no membership fee is required!
The aim is to raise funds to purchase resources to develop, reinforce and promote the children’s education, by holding social evenings, and deepening the relationship that exists between staff, parents and everyone else involved with the school.

### Theatr Derek Williams

Theatr Derek Williams was established when the new school was opened in 2019. The theatre provides entertainment for residents of the area and beyond. We are pleased to benefit from welcoming groups to run workshops and plays for our learners and the theatre is also a great opportunity for the pupils to perform themselves.

During the year, individuals parties and school choirs perform for various local societies, and we support the Urdd Eisteddfod annually.





## Presenoldeb a Phrydlondeb

Mae gofyn statudol i ysgolion gadw cofnod manwl o bob absenoldeb plentyn. Gofynwn i rieni gysylltu â ni cyn 9.00 yb os na fydd eu plentyn yn dod i'r ysgol i sicrhau diogelwch pob plentyn sydd yn ein gofal, ac i ni fod yn gwybod pam fod plentyn yn absennol.

Ym mlynyddoedd 7 i 11 bydd yr ysgol hefyd yn monitro presenoldeb disgyblion ym mhob gwers. Mae'n bosibl caniatau hyd at ddeg diwrnod ysgol y flwyddyn o wyliau hyd at blwyddyn 8, a 5 diwrnod i flynyddoedd 9 – 13 er fod hyn yn amharu ar addysg eich plentyn. Mae'r ffurflenni gwneud cais am absenoldeb gwyliau ar gael o'r ysgol.

Mae presenoldeb rheolaidd a phrydlondeb yn holl bwysig os yw disgyblion am fod yn llwyddiannus yn yr ysgol. Disgwylir i'r disgyblion gyrraedd yr ysgol yn brydlon. Bydd giatiau'r ysgol yn agor am 8:40 ac yn cau am 9:00. Disgwylir i ddysgwyr sydd yn cyrraedd yn hwyr gofrestru yn y prif dderbynfa. Bydd yr ysgol yn cysylltu â'r cartref os na fydd esboniad am absenoldeb yn cael ei roi.

## Attendance and Punctuality

Schools are statutorily required to keep a detailed record of each child's absence. We ask parents to contact us before 9.00 a.m. if their child is absent from school to ensure the safety of every child in our care, and so that we know why a child is absent.

In years 7 to 11 the school will also monitor pupils' attendance in each lesson. If absolutely necessary, up to ten school days annually are permitted for family holidays up to year 8 and 5 days for years 9, 10 and 11, although this has a disruptive impact on your child's education. Holiday leave application forms are available from the school.

Regular attendance and punctuality are vital if pupils are to be successful at school. Pupils are expected to arrive at school punctually. The school gates will open at 8:40 pm and close at 9:00. Late arrivals are expected to register at the main reception. The school will contact the home if no explanation for the absence is given.

## Byrbrydau Boreol a Chinio Ysgol

Bydd dewis o fyrbrydau boreol a diodydd oer a phoeth ar gael i'r disgyblion uwchradd amser egwyl y bore.

Darperir cinio ysgol ardderchog am bris rhesymol yn ffreutur yr ysgol gan ein tîm arlwyo gweithgar a chyfeillgar. Mae darpariaeth ar gyfer y disgyblion sy'n dod a'u bwyd eu hunain i fwyta gyda phawb arall yn y ffreutur.

'School Gateway' yw'r app i dalu am ginio dysgwyr - cewch fwy o wybodaeth am hyn cyn i'ch plentyn gychwyn yn yr ysgol.

**CLWB BRECWAST**

Mae'r clwb brecwast ar agor bob bore i ddysgwyr cynradd o dan oruchwyliaeth dwy aelod o staff.

Clwb gofal (8:00 – 8:40): £1 am bob sesiwn ar gyfer brecwast a gofal.

Clwb brecwast (8:25-8:50) – brecwast yn unig, am ddim.

Mae'n hanfodol eich bod yn archebu lle i'ch plentyn ymlaen llaw ar School Gateway.

## Morning Snacks and School Dinner

Secondary pupils are offered a choice of morning snacks and hot and cold drinks at break time.

An excellent and reasonably priced school lunch is provided in the school canteen by our friendly and efficient catering team. There is provision for pupils who bring their own food to eat with everyone else in the canteen.

'School Gateway' is the app to pay for dinner - you will receive further information about this before your child starts school.

**BREAKFAST CLUB**

The breakfast club is open every morning for primary learners under the supervision of two members of staff.

Care club (8:00 - 8:40): £1 per session for breakfast and care club.

Breakfast club (8:25-8:50) - breakfast only, free of charge.

Booking your child in advance on School Gateway is essential.

## Polisïau

Gweler gwefan yr ysgol am gopi llawn o'r polisïau isod.

**Cydraddoldeb**
Amcan yr ysgol yw sicrhau cydraddoldeb i'r holl ddisgyblion o ba bynnag gefndir cymdeithasol y dont, cydraddoldeb i fechgyn a merched, i blant galluog a phlant llai galluog. Ceisiwn feithrin agwedd gadarnhaol mewn perthynas â chydraddoldeb hiliol, crefydd a rhyw, osgoi cyflyru ac steroteipio, gan gynnwys mewn perthynas â'r cwricwlwm.

**Plant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol**
Yn Ysgol Godre'r Berwyn credwn yn gryf fod Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad yn gyfrifoldeb pob aelod o staff yr ysgol. Ein nod yw sicrhau mynediad i gwricwlwm eang a chytbwys sydd wedi ei wahaniaethu i ateb gofynion bob disgybl. Credir fod gan unigolyn anghenion dysgu ychwanegol os oes ganddo neu ganddi anhawster neu anabledd dysgu sydd yn galw am ddarpariaeth ddysgu ychwanegol. Yn yr achos yma bydd anghenion y disgyblion yn cael eu hadnabod trwy ddull sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ac felly bydd Cynllun Datblygu Unigol yn cael eu llunio ar eu cyfer. Bydd yr ysgol yn cydweithio'n agos ag asiantaethau allanol i adnabod a chefnogi disgyblion ADY a gosod darpariaeth yn ei lle i gwrdd a'r anghenion. Bydd dysgwyr sydd angen cefnogaeth o ran anawsterau cymdeithasol, emosiynol, ymddygiadol neu feddygol yn cael eu cefnogi gan ein cymorthyddion cynhwysiad a chymorthyddion ELSA. Mae system pontio yn ei le ar gyfer cefnogi disgyblion cynradd sydd ag ADY er mwyn sicrhau trosglwyddo effeithiol.

**Cydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol**
Mrs Sara Morris

**Llywodraethwr â chyfrifoldeb**
Mrs Manon Jones

## Policies

Please see the school's website for a full copy of the following policies.

**Equality**
The school's objective is to provide equality for all pupils, irrespective of their social background, equality for boys and girls, for able and less able children. We seek to develop a positive attitude towards racial equality, religion and gender, and avoid conditioning and stereotyping, and this includes the curriculum.

**Children who have Additional Learning Needs**
At Ysgol Godre'r Berwyn we firmly believe that Additional Learning Needs and Inclusion are the responsibility of every member of the school's staff. Our aim is to ensure access to a broad and balanced curriculum that has been differentiated to meet the requirements of each pupil. It is believed that an individual has additional learning needs if he or she has a learning difficulty or disability that calls for additional learning provision. In this case the pupils' needs will be identified through a method which focuses on the individual and therefore an Individual Development Plan will be drawn up for them. The school will work closely with external agencies to identify and support ALN pupils and put provision in place to meet the needs. Learners who need support in terms of social, emotional, behavioural or medical difficulties will be supported by our inclusion assistants and ELSA assistants. There is a transition system in place to support primary pupils who have ALN in order to ensure an effective transition.

**Additional Learning Needs Co-ordinator**
Mrs Sara Morris

**Designated Governor**
Mrs Manon Jones

**Plant ag Anghenion Corfforol**
Byddwn yn gwneud popeth o fewn ein gallu i groesawu pob plentyn, sicrhau eu diogelwch, eu galluogi i gymryd rhan yn holl weithgareddau'r ysgol a chael mynediad llawn i'r Cwricwlwm Cenedlaethol. Mae gennym Gynllun Hygyrchedd a Chydraddoldeb i Bobl Anabl.

**Cynllun Cydraddoldeb Anabledd**
Mae'r Dyletswydd Cydraddoldeb Anabledd yn ddyletswydd newydd o fewn Deddf Gwahaniaethu (DDA) 2005, ble mae'n ofynnol i ysgolion gymryd camau rhagweithiol i sicrhau bod disgyblion, staff, llywodraethwyr, rhieni/warcheidwaid a phobl eraill anabl sy'n defnyddio'r ysgol yn cael eu trin yn gyfartal.

**Children with Physical Needs**
We will do our utmost to welcome every child, ensure their safety, enable them to participate in all the school's activities and gain full access to the National Curriculum. We have an Accessibility and Equality Plan for Disabled People.

**Disability Equality Plan**
The Disability Equality Duty is a new duty contained within the Disability Discrimination Act (DDA) 2005, where schools are required to take proactive measures to ensure that pupils, staff, governors, parents/guardians and other disabled persons who use the school are treated equally.











# Croeso










Tyrd i mewn, mae yma groeso,
aelwyd gynnes dan un to,
yma mae pob un yn cyfrif,
a phawb yn arwr yn ei dro...

fel y rhai a fu o'th flaen di
yn codi llais yn erbyn trefn,
gelli dithau ddangos ochr,
weithiau rhaid cael asgwrn cefn...


cofia daith yr afon Ddyfrdwy,
tarddu'n fychan rhwng y brwyn,
weithiau'n droellog, weithiau'n union
ond yn ei dafnau, dawns a swyn,

a'r Tryweryn - yn ei halaw,
y llon a'r lleddf ynghlwm i gyd,
ond ynddi nid oes nodyn chwerw,
dy annog mae i herio'r byd.


a phan fyddi'n cael dy amau
yn gorfod sefyll dros y gwir,
cei o'th gylch gadernid Berwyn,
a doethineb hen ei thir...

A phan ddaw dy dro i adael,
cwyd dy ben, rho wên i'r byd,
a chofia fod yng Ngodre'r Berwyn,
ddrws ar agor i bawb o hyd.

Haf Llewelyn
















AN INSPECTOR